# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 18 Rhagfyr 2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 20 Rhagfyr 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 31 Rhagfyr 2024 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Amgylchedd

**PWNC**; Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru - Ymgynghori Cyhoeddus 2024

**PENDERFYNIAD –**

Cyflwyno ymateb Cyngor Gwynedd i cynnig CNC ar gyfer Parc Cenedlaethol Newydd Cymru.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Aelod Lleol

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Craig ab Iago – Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Rebeca Jones – Rheolwr Polisi Cynllunio |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 18.12.2024 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc :** Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru - Ymgynghori Cyhoeddus 2024

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Cyflwyno ymateb Cyngor Gwynedd i cynnig CNC ar gyfer Parc Cenedlaethol Newydd Cymru.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig am Barc Newydd. Mae rhan o'r Parc Newydd yn disgyn i fewn i ACLl Gwynedd – Ardal Llandderfel.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae Cyfoaeth Naturiol Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am y Parc Cenedlaethol Newydd (Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru - Ymgynghori Cyhoeddus 2024 - Natural Resources Wales Citizen Space - Citizen Space (cyfoethnaturiol.cymru)) ac mae hyn yn gyfle i rhoi sylwadau cychwynnol a codi pryderon ar y bwriad cyn yr ymgynghoriad statudol llawn fydd yn cael ei gynnal yn hwyr yn 2025. Llythyr sydd yn gosod allan yr ymateb wedi ei hatodi.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

d/b

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**D/b**

**Prif Swyddog Cyllid** – Nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol uniongyrchol, ond mae'n debyg y byddai oblygiadau ariannol i Cyngor Gwynedd petai ffiniau'r parc cenedlaethol yn cynnwys rhannau o Wynedd. Rwyf o'r farn fod cynnwys yr ymateb yn adlewyrchiad teg o oblygiadau ariannol creu Parc Cenedlaethol newydd

**Swyddog Monitro** – Mae hwn yn ymgynghoriad cychwynnol ynglŷn a'r bwriad i sefydlu Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd Cymru . Fel un o'r cynghorau sydd yn disgyn o fewn ffiniau arfaethedig y Parc newydd mae'n bwysig fod Gwynedd yn ymateb i'r ymgynghoriadau. Fel y nodir yn yr ymateb drafft rhaid hefyd dal sylw at union leoliad y ffiniau a maint ardal y Cyngor yma sydd o fewn y ffiniau. Wrth i'r cynlluniau ddatblygu bydd angen i'r Cyngor ddod i safbwynt ar y materion cyfansoddiadol yma a chyflwyno hynny drwy drefniadau ffurfiol. Rwy'n fodlon mai ar hyn o bryd safbwyntiau cychwynnol sydd yma yn unig. Mae gan y rhain oblygiadau corfforaethol fydd angen eu penderfynu yn y cyd-destun yma.

**Aelod Lleol** – Cynghorydd Elwyn Edwards – Cytun efo'r ymateb sydd wedi cael ei baratoi.

**Annwyl Syr/Fadam**

Diolch am y cyfle i roi sylwadau ar y parc cenedlaethol newydd arfaethedig. Er bod yr ymgynghoriad yma yn ymwneud hefo ffin arfaethedig y parc newydd ac er ei fod ond yn effeithio ar ardal fechan o Wynedd yn unig mae'r cynnig wedi codi cwestiynau/pryderon rydym wedi nodi isod:

<u>Prisiau Tai</u>

Mae gwaith ymchwil gwnaed gan *Nationwide* yn dangos fod prisiau tai yn gallu codi hyd at 25% o fewn Parc Cenedlaethol. <https://www.nationwidehousepriceindex.co.uk/reports/national-parks-and-areas-of-outstanding-natural-beauty-boost-house-prices-by-up-to-25-percent>. Yng Ngwynedd mae prisiau tai ar gyfartaledd yn uchel i gymharu â chyflog cyfartaledd Gwynedd sydd yn golygu fod nifer uchel o'r boblogaeth wedi cael ei brisio allan o'r farchnad yng Ngwynedd. Gall creu Parc Cenedlaethol newydd gael effaith ar brisiau tai wrth wneud yr ardal yn fwy deniadol, gall olygu fod fforddiadwyedd tai yn mynd yn bellach allan o gyrraedd pobl leol.

<u>Economi Wledig</u>

Mae'r ardal o amgylch Llandderfel yn ardal wledig iawn lle mae amaethyddiaeth yn un o'r prif ddiwydiannau. Mae arallgyfeirio yn bwysig i'r sector amaethyddol , ac mae'n gallu helpu hyfywedd busnesau yng nghefn gwlad. Y pryder ydy y bydd dynodiad Parc Cenedlaethol newydd yn cyflwyno polisïau mwy caeth o ran y fath o ddatblygiadau sydd yn dderbyniol o fewn yr ardal l. Mae pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn darparu cyfrifoldebau statudol clir i warchod a gwella'r harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ac ni ystyrir datblygiadau mawr yn ffafriol oni bai bod amgylchiadau eithriadol dros wneud hynny.

<u>Economi Ymwelwyr a Thwristiaeth.</u>

Mae'n gor-dwristiaeth yn fater sydd yn peri pryder yn rhannau o Wynedd yn enwedig ym Mharc Parc Cenedlaethol Eryri. Mae hyn yn arwain at broblemau parcio, tagfeydd ar y ffyrdd lleol, sbwriel a llygredd sy'n arwain at wrthdaro â'r gymuned leol. Mae yna bryder bydd dynodi Parc Cenedlaethol yn yr ardal yma yn arwain at gynnydd yn y nifer o bobol sydd yn ymweld â'r ardal sydd yn boblogaidd yn barod ac felly'n arwain at waethygiad o'r problemau yma. Yn ogystal gall dynodi Parc Cenedlaethol arwain at gynnydd yn y nifer o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr sydd yn fater o bryder i Gyngor Gwynedd. Amlygir ein pryderon gyda chyflwyniad cyfarwyddeb Erthygl 4 sydd yn weithredol ers y 1 Medi 2024. Cafodd ei gyflwyno i geisio gwarchod stoc tai yn yr Ardal Cynllunio Lleol trwy wneud hi yn angenrheidiol i gyflwyno cais cynllunio i newid defnydd prif gartref i ail gartref neu lety gwyliau tymor byr. Gall cynnydd yn y nifer o ail dai a llety gwyliau tymor byr arwain i brisiau tai godi, effeithio ar fforddiadwyedd y tai i bobl leol fydd yn ei dro yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.

<u>Iaith Gymraeg</u>

Gall y materion sydd wedi ei nodi uchod e.e. diffyg argaeledd tai sydd yn fforddiadwy i bobl leol gael effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg. I sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn cael ei gwarchod ag i sicrhau twf yn yr iaith mae'n rhaid ceisio hwyluso cymunedau cynaliadwy lle mae tai ar gael i'r boblogaeth leol. Mae'r ymchwil a wnaeth Cyngor Gwynedd i gyfiawnhau cyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 yn glir yn dangos bod cydberthynas rhwng niferoedd uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr a'r iaith Gymraeg.

Noder os sefydlir y Parc Cenedlaethol, yna byddai angen enw newydd, gwelir mai enwau Cymraeg sydd yn cael eu cynnig, ac mae hyn yn cael ei groesawu â'i gefnogi.

Llywodraethu

Ar hyn o bryd nid oes manylion ynglŷn a sut y bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei Lywodraethu. Bydd angen manylder clir ynglŷn â hyn cyn yr ymgynghoriad statudol, er mwyn rhoi cyfle rhesymol i Gyngor Gwynedd roi barn ar hyn. Gan mai ond rhan fechan o'r parc cenedlaethol newydd sy'n disgyn o fewn Gwynedd, rydym am gael y cyfle i ystyried priodoldeb cyflwyno ymateb fyddai yn cyfarch hyn. Yn benodol ynglŷn a fyddai y Cyngor am fod yn un o'r awdurdodau sydd yn cael eu cynrychioli neu yn cyfrannu at yr Awdurdod? Mae hyn i'w gyffelybu a sefyllfa yn Ne Parc Cenedlaethol Eryri sydd o fewn ffiniau Cyngor Powys ble nad ydynt yn rhan o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Cynllunio

Bydd creu Parc Cenedlaethol newydd yn golygu creu Awdurdod Cynllunio Lleol newydd fydd gyda dyletswyddau statudol yn y maes cynllunio.

a) Polisi Cynllunio

Bydd y penderfyniad terfynol ar ddynodi'r parc cenedlaethol newydd yn cael ei wneud tua'r un amser ag y bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal ein hymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Adnau (Cynllun Datblygu Lleol). Mae angen arweiniad gan y Llywodraeth / CNC ar sut y dylai Cynllun Datblygu Lleol newydd Gwynedd ymdrin â'r parc cenedlaethol arfaethedig yn yr ardal sydd o fewn Gwynedd

Mae amserlen CDLl Gwynedd sydd wedi'i nodi yn y Cytundeb Cyflawni i'w weld yn atodiad 1. Mae'r amserlen wedi ei rannu yn ddwy ran hefo camau diffiniol a chamau dangosol.

b) Rheoli Datblygu

Mae angen arweiniad ar sut yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio yn yr ardal o fewn Gwynedd. A fydd Gwasanaeth Rheolaeth Datblygu Cyngor Gwynedd yn cynnal y gwasanaeth hwn hyd nes y bydd yr Ardal Cynllunio Leol (ACLl) newydd wedi ei sefydlu a staff newydd yn cael eu penodi? Neu a fydd y gwasanaeth hwn yn cael ei allanoli i Gyngor Gwynedd am ffi ar ôl i'r ACLl cael ei sefydlu?

Cyllideb

Mae angen mwy o wybodaeth ar sut bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ariannu. Noder fod 25% o gronfeydd Parciau Cenedlaethol yn dod gan yr Awdurdodau Lleol cyfansoddol. Yn yr hinsawdd ariannol cyfredol mae pob corff cyhoeddus yn ei wynebu, mae pryderon sylweddol am y baich ychwanegol fydd hyn yn rhoi ar y Cyngor mewn cyfnod heriol iawn yn ariannol. Er ei fod yn effeithio ar ardal fechan o Wynedd yn unig, mae'n dal yn gwestiwn pwysig i'w ofyn yn yr hinsawdd ariannol bresennol sy'n wynebu awdurdodau lleol heddiw.

Gan ystyried y sefyllfa gyllidebol, mae'n anodd deall sut gellir rhoi blaenoriaeth i'r gwaith sydd yn gysylltiedig a chreu Parc Cenedlaethol newydd.

Ardal Ymgeisiol ac yr angen am Barc Cenedlaethol newydd.

Mae'r ardal o Wynedd sydd yn cael ei ystyried i fod yn rhan o'r Parc Cenedlaethol yn ffinio efo Parc Cenedlaethol Eryri. Cafodd yr ardal yma ei ystyried wrth benderfynu ar ffiniau Eryri? Os felly pam nad oedd wedi ei gynnwys o fewn ffin Parc Cenedlaethol Eryri? Beth sydd wedi newid o ran tirwedd yr ardal ymgeisiol ers dynodi Parc Cenedlaethol Eryri ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy? Mae pum Tirwedd Cenedlaethol yng Nghymru - oes rheswm penodol am ddewis yr ardal yma dros unrhyw ardal arall?

Mae’r Cyngor yn edrych ymlaen gweld eglurhad a gwybodaeth manwl sy’n cyfarch y pryderon sydd wedi ei nodi uchod.

Byddwn yn rhoi sylwadau pellach fel rhan o’r ymgynghoriad statudol sydd i ddod yn ystod Hydref 2025 ond y cyfamser byddwn yn ddiolchgar os gallwch roi ystyriaeth i’r materion sydd yn cael eu codi yma.

Atodiad 1

1) <u>Camau Diffiniol – Cyfnodau diffiniol pan fydd ymgynghoriadau yn digwydd</u>

| Rhif y Cam | Cam | Amserlen | Cyfnodau Ymgynghoriad Allweddol |
|---|---|---|---|
| 1 | Cytundeb Cyflawni<br>• Paratoi<br>• Ymgynghori efo rhanddeiliad allweddol<br>• Cyflwyno | Medi 2023 – Mawrth 2024 | Ymgynghoriad Cyhoeddus Hydref-Tachwedd 2023<br>Cymeradwyaeth gan y Cyngor Mawrth 2024<br>Cyflwyno i Lywodraeth Cymru Mawrth 2024 |
| 2 | Cyn adneuo - paratoi, cynnwys ag ymgynghori<br>• Papur Gweledigaeth ag opsiynau strategol<br>• Galw am safleoedd<br><br>Angen Papurau Cefndir Penodol | Mawrth 2024 - Awst 2025 | Galw am safleoedd Mawrth/Ebrill 2024 am o leiaf 6 wythnos |
| 3 | Ymgynghoriad Cyn Adneuo Strategaeth a Ffafrir<br><br>Asesiadau Effaith AC/AAS a HRA | Mawrth 2024 - Awst 2025 | Mawrth 2025 i Ebrill 2025 |
| 4 | Cynllun Adnau | Medi 2025- Awst 2026 | Ymgynghoriad Cyhoeddus Rhagfyr 2025 /Ionawr 2026 |

2) <u>Camau Dangosol - dangosol yn unig i'w gadarnhau yn ddiweddarach yn y broses</u>

| Rhif y Cam | Cam | Amserlen | Cyfnodau Ymgynghoriad Allweddol |
|---|---|---|---|
| 5 | Cyflwyno | Medi 2026 | n/a |
| 6 | Archwiliad | 11 mis o gyflwyno (targed) | Gellir fod ymgynghoriad pellach yn dilyn yr archwiliad |
| 7 | Adroddiad yr Arolygydd | Awst 2027 | |
| 8 | Mabwysiadau | Medi/Hydref 2027 (rhaid mabwysiadau o fewn o fewn 8 wythnos o dderbyn yr adroddiad) | n/a |
| 9 | Monitro ac Adolygu | Parhaol wedi mabwysiadu | Adroddiadau Monitro Blynyddol bob blwyddyn yn fis Hydref a'r Adolygiad o'r Cynllun heb fod yn hwyrach na 4 blynedd o'r dyddiad mabwysiadu |